Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Woodside Grange**

**Cartref Gofal Woodside Grange**
**45 Tan y Bryn Road**
**Llandrillo-yn-Rhos**
**Bae Colwyn**
**LL28 4AD**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

16 Tachwedd 2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Woodside Grange

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Cartref Gofal Woodside Grange |
| Lleoedd cofrestredig | 35 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 13 Ionawr 2020 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yw gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn hapus ac yn cael gofal da yn Woodside Grange. Maent yn fodlon ar y ffordd y caiff y cartref ei redeg, pa mor lân ydyw, pa mor sylwgar yw'r staff ac ansawdd y gofal. Mae'n amlwg bod y bobl yn cael dewis am bob agwedd ar eu bywyd yn y cartref. Cânt eu parchu fel unigolion ac mae'r staff yn deall yr hyn sy'n bwysig iddynt.

Mae'r staff wedi'u hyfforddi ac yn cael eu harwain gan bolisïau a gweithdrefnau er mwyn sicrhau arferion diogel ac effeithiol.  Mae pwyslais ar barchu dewis, cydnabod cryfderau pobl, a hyrwyddo annibyniaeth. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y broses o sefydlu staff, y polisïau sy'n eu harwain a'r cynlluniau personol sydd ar waith ar gyfer pob person. Mae'r staff yn Woodside Grange wedi gweithio yma ers nifer o flynyddoedd; mae'n amlwg bod gan y staff a'r tîm arwain a rheoli barch tuag at ei gilydd.

Mae'r cartref yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac yn cynnig amgylchedd mawr cyfforddus a chartrefol. Defnyddir ystafelloedd gwahanol at ddibenion gwahanol, boed hynny i roi ardal dawel neu rywle i gynnal gweithgareddau llawn hwyl a chymdeithasu. Ceir setiau teledu sydd â chysylltiad â'r rhyngrwyd ym mhob ystafell, gan gynnwys yr ystafelloedd gwely, fel y gall y bobl ddewis yr hyn y maent am ei wylio.

Mae'r darparwr yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda, yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd ac yn cynnal trafodaethau dyddiol â'r rheolwr. Mae'n deall yr hyn sy'n gweithio'n dda ac yn mynd ati i geisio barn am yr hyn y gellid ei wella ymhellach er budd y bobl sy'n byw yno.

## Llesiant

Rhoddir dewis i'r bobl ac mae ganddynt reolaeth dros bob agwedd ar y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael. Maent yn dewis pryd i godi, ble a sut y maent yn treulio eu diwrnod, beth y maent yn ei fwyta a'i yfed, a pha amser y maent yn mynd i'r gwely bob nos. Trefnir gweithgareddau dyddiol a chaiff y bobl ddewis a ydynt am gymryd rhan ai peidio. Caiff dewisiadau'r bobl eu dogfennu ac mae'r staff yn gyfarwydd â'u dymuniadau.

Gofelir am lesiant corfforol meddyliol ac emosiynol y bobl gan staff gofal hyfforddedig sy'n ceisio cyngor proffesiynol os oes angen. Mae'r cynlluniau personol yn gynhwysfawr ac yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn a sut y maent am i'w hanghenion gael eu diwallu. Ceir pwyslais clir ar gydnabod cryfderau a sgiliau'r bobl a hybu eu hannibyniaeth. Cedwir cofnodion o gynnydd dyddiol y bobl a chaiff eu cynlluniau personol eu hadolygu bob mis er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol bob amser.

Caiff y staff hyfforddiant perthnasol i sicrhau arferion diogel, gan gynnwys diogelu pobl agored i niwed; cânt eu harwain gan bolisïau a gweithdrefnau cysylltiedig. Mae'r rheolwr yn gweithredu polisi drws agored a gall y staff a'r preswylwyr fynd at y tîm rheoli unrhyw bryd am sgwrs.  Gall y staff siarad â'r rheolwr yn unigol felly gallant hefyd fynegi pryderon yn y ffordd hon os bydd angen. Mae trefniadau ar waith i sicrhau y caiff unrhyw benderfyniadau sy'n cyfyngu ar ryddid person eu gwneud er budd gorau'r person yn unig, gan ystyried y teulu a'r awdurdod diogelu lleol yn llawn.

Mae'r Cartref Woodside Grange wedi'i ddylunio i helpu'r bobl i gyflawni eu canlyniadau dymunol; mae'r coridorau a'r ystafelloedd yn fawr, gan alluogi'r bobl i symud yn hawdd ac yn ddiogel o amgylch y cartref. Mae'r cartref yn fawr ac wedi'i addurno i gynnig ardaloedd tawel ac ardaloedd mwy ysgogol ar gyfer cymdeithasu. Mae tir y cartref wedi'i ddylunio mewn ffordd ystyriol iawn a cheir gerddi thematig wedi'u dylunio i fod yn ardaloedd ysgogol, synhwyraidd a diogel.

## Gofal a Chymorth

Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod cynllun personol cywir sy'n canolbwyntio ar y person ar waith ar gyfer pob unigolyn, sy'n nodi sut mae'r person yn dymuno i'w anghenion gael eu diwallu. Gwelsom fod y cynlluniau gofal yn seiliedig ar asesiadau cynhwysfawr o anghenion a dewisiadau'r bobl ac y cânt eu hadolygu bob mis er mwyn sicrhau eu bod yn gywir. Maent yn rhoi darlun clir o'r person, ei ddiddordebau, ei fywyd, a'r hyn sy'n bwysig iddo. Gwelsom fod un person yn mwynhau darllen y papurau newydd ac y caiff y rhain eu dosbarth bob dydd. Mae person arall yn mwynhau gwydraid o chwisgi gyda'r nos; ac mae un arall yn mwynhau mynd allan ar ei sgwter symudedd. Gwnaethant ddweud wrthym fod hyn yn digwydd. Gwelsom lawer o enghreifftiau o'r bobl yn cael eu trin fel unigolion ac yn mwynhau pethau y maent bob amser wedi eu mwynhau. Roedd un preswylydd yn llawn canmoliaeth i'r staff a glendid y cartref. Dywedodd*, 'It's very well run, there is always somebody there is you need anyone'.* Mae'r person hwn yn aml yn eistedd yn y swyddfa yn sgwrsio â'r rheolwr am ei ddiwrnod ac yn rhannu ei farn.

Dengys y cynlluniau personol gryfderau'r person, ei sgiliau ac i ba raddau y mae angen cymorth arno. Mae hyn yn helpu i hybu sgiliau annibyniaeth y bobl a'u cynnal. Gwelsom fod cynhwysion yn cael eu darparu ar gyfer un person er mwyn iddo allu coginio ei hoff bryd, a'i fod yn cael ei annog i roi cynnig ar wneud ei ddiodydd ei hun. Cred y rheolwr na ddylai bywydau'r bobl newid pan fyddant yn dod i'r cartref, gan ddweud *'It is just a different address'.*

Cynhelir gweithgareddau dyddiol y gall y bobl ddewis cymryd rhan ynddynt. Gwelsom gynllun ar gyfer yr wythnos a oedd yn cynnwys bingo, celf a chrefft, a cherddoriaeth. Ar ddiwrnod ein hymweliad, roedd cwis yn cael ei gynnal. Gwelsom y staff gofal yn helpu'r bobl mewn ffordd sensitif ac amyneddgar yn ystod amseroedd bwyd, a bod cydberthynas gyfeillgar rhyngddynt. Mae'r profiad yn ystod amser bwyd yn un tawel a chytûn. Gwelsom fod dewis o ddau bryd bwyd ar gael, wedi'u gweini â thatws ar amryw ffyrdd: golwyth porc gyda llysiau a thatws stwnsh neu gyri gyda reis a sglodion. Mae'r prydau bwyd yn edrych yn flasus ac yn faethlon, ac mae'r bwydlenni a'r stociau bwyd yn dangos bod amrywiaeth dda o lysiau a ffrwythau ffres ar gael. Dywedodd unigolyn wrthym, *'The food is always good here'.*

Caiff y bobl gymorth i gael gafael ar ofal iechyd ac unrhyw wasanaethau eraill sydd eu hangen i gynnal eu hiechyd a'u llesiant. Dengys cofnodion fod y bobl yn cael apwyntiadau gyda'u meddyg, ciropodydd, ymarferwyr deintyddol ac optegwyr. Gwelsom fod cyfarpar arbenigol wedi'i brynu i sicrhau diogelwch y bobl a chysur y bobl. Roedd un person wedi cael cymorth i gael gafael ar eiriolwr annibynnol i'w helpu i wneud penderfyniad pwysig. Mae'r gwasanaeth yn mynd ati i geisio cyngor a chymorth i'r bobl pan fydd ei angen arnynt.

Mae systemau ar waith i ddiogelu'r bobl sy'n byw yn y cartref. Caiff y staff hyfforddiant ar ddiogelu ac mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i'w dilyn os bydd pryder o'r fath. Dengys cofnodion y caiff unrhyw gyfyngiadau ar ryddid y bobl eu gwneud er eu budd gorau a chyda chytundeb llawn pawb dan sylw.

## Yr Amgylchedd

Darperir y gwasanaeth mewn amgylchedd sydd â chyfleusterau a chyfarpar sy'n helpu'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Er bod y cartref wedi'i leoli mewn hen adeilad, mae wedi'i ailwampio i safon fodern i greu amgylchedd diogel, cyfforddus a dymunol. Mae'r cartref wedi'i addurno mewn lliwiau llachar, gan gynnwys murlun ysgogol o gefn gwlad. Mae'n lân, yn daclus, yn gartrefol ac yn gyfforddus. Ceir setiau teledu clyfar wedi'u cysylltu â'r rhyngrwyd ym mhob ystafell, gan gynnwys y rhan fwyaf o'r ystafelloedd gwely. Gwelsom y bobl yn mwynhau cyngerdd Cliff Richard, gan gyd-ganu a chymeradwyo'r perfformiad. Mae'r ystafelloedd gwely wedi'u personoli â lluniau, ffotograffau ac eitemau sy'n bwysig i'r unigolyn. Ceir nifer o lolfeydd lle mae'r bobl yn cymdeithasu ac yn gwylio'r teledu. Ceir hefyd lolfeydd tawel er mwyn i'r bobl dreulio amser ar eu pen eu hunain os byddant yn dymuno gwneud hynny. Mae'r ystafelloedd cinio yn fawr ac yn olau ac yn creu amgylchedd tawel i sicrhau profiad bwyta dymunol. Dengys cofnodion cyfarfodydd y gofynnir i'r staff yn rheolaidd am eu barn ar sut y gellid gwella'r amgylchedd ymhellach; mae'r rheolwr yn mynd ati i greu awyrgylch cartrefol. Gwelsom fod cynlluniau ar waith i wella'r adeilad drwy osod ffenestri newydd yn ystod y flwyddyn nesaf. Yn yr awyr agored, ceir ardaloedd diogel i'r bobl fwynhau'r awyr iach a'r heulwen.  Ceir gardd ar thema'r môr gyda chabanau glan môr i eistedd ynddynt a nodwedd dŵr. Mae 'fan hufen iâ' y cartref yn gweini lluniaeth yn yr haf a cheir stondin Pwnsh a Jwdi gerddorol. Ceir hefyd ardd synhwyraidd gaeedig sy'n cynnwys llawer o seddi er mwyn i'r bobl eistedd i fwynhau'r tawelwch ac ymlacio.

Mae'r darparwr gwasanaeth yn nodi ac yn lliniaru risgiau i iechyd a diogelwch. Gwelsom asesiadau risg ar gyfer unigolion, gan gynnwys cynlluniau personol gadael mewn argyfwng. Caiff cwympiadau eu cofnodi, eu monitro a'u gwerthuso er mwyn nodi themâu a sicrhau y gellir rheoli risg yn fwy effeithiol. Dengys cofnodion y cynhelir gwiriadau diogelwch fel mater o drefn mewn perthynas â thymheredd dŵr, legionella, cyfarpar tân a diogelwch tân; caiff profion trydanol a gwiriadau diogelwch ar y boeler eu cynnal hefyd. Cynhelir ymarferion tân rheolaidd ac mae'r staff wedi cael hyfforddiant ar ddiogelwch tân. Llwyddodd y cartref i ennill sgôr hylendid bwyd o 5 gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn 2020, sef y sgôr uchaf posibl y gellir ei hennill, a gwelsom fod archwiliadau rheoli heintiau'n cael eu cynnal. Dengys y cofnod cynnal a chadw fod y staff yn wyliadwrus ac yn hysbysu'r rheolwr cynnal a chadw'n gyflym os es angen gwneud unrhyw waith atgyweirio neu gynnal a chadw. Cyflogir dau weithiwr cynnal a chadw ac mae un bob amser ar alwad fel y gellir mynd i'r afael â phroblemau'n gyflym.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y darparwr drefniadau llywodraethu ar waith er mwyn helpu i sicrhau y caiff y gwasanaeth ei redeg yn ddidrafferth, yn ddiogel ac yn effeithiol. Yr unigolyn cyfrifol hefyd yw perchennog y cartref, ac sy'n gyfrifol am oruchwylio effeithiolrwydd y gwasanaeth. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r cartref o leiaf ddwywaith yr wythnos er mwyn rhoi cymorth i'r rheolwr a monitro'r gwasanaeth. Bob tri mis, mae'r unigolyn cyfrifol yn cwblhau adroddiad ar yr hyn a arolygwyd ganddo yn ystod yr ymweliad, ac unrhyw faterion sy'n codi. Gwnaethom siarad â'r rheolwr, a oedd yn llawn canmoliaeth i'r unigolyn cyfrifol am y cymorth y mae'n ei roi a'r gydberthynas agored a gonest sydd ganddynt. Dengys cofnodion y defnyddir cyfarfodydd rheolaidd â'r staff i geisio barn am y gwasanaeth ac i nodi syniadau o ran sut i'w wella ymhellach. Mae'r darparwr yn cynnal goruchwyliaeth dda o'r gwasanaeth ac yn mynd ati i geisio ei ddatblygu ymhellach.

Caiff y bobl eu cefnogi gan niferoedd priodol o staff sydd ar ddyletswydd ar unrhyw adeg benodol. Caiff staff eu fetio'n llawn cyn eu cyflogi er mwyn sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y rôl, a chânt yr hyfforddiant angenrheidiol i'w galluogi i weithio'n ddiogel ac yn effeithiol. Maent yn gyfarwydd â'r bobl y maent yn eu cefnogi a gwelsom fod y rhyngweithio bob amser yn barchus, yn gynnes ac yn gyfeillgar. Dengys cofnodion fod y staff wedi gweithio yn y cartref ers nifer o flynyddoedd. Gwelsom fod y rhestr wirio sefydlu yn gynhwysfawr ac yn cynnwys yr angen i drin y bobl a'u perthnasau â pharch ac empathi bob amser. Gwnaethom siarad â'r staff a ddywedodd eu bod yn hapus yn gweithio yn Woodside Grange; roeddent yn llawn canmoliaeth i'r rheolwyr, y cymorth y maent yn ei gael a'r cydberthnasau y maent wedi'u meithrin â'i gilydd. Mae'r rheolwr a'r dirprwy reolwr yn gweithio ochr yn ochr ac mae'r ddau ar ddyletswydd bob dydd o'r wythnos waith. Gwnaethom siarad â'r staff a ddywedodd,*'This home is excellent; really excellent. The care, the management, the choices people have. Everyone really gets on with each other. The manager is like one of us. She mixes in and we can talk to her about anything'.* Mae'n amlwg bod gan y staff, y rheolwr a darparwr y gwasanaeth barch tuag at ei gilydd; mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Gwelsom gofnodion sy'n dangos bod y gwasanaeth yn hysbysu'r cyrff rheoleiddio perthnasol am unrhyw bryderon a digwyddiadau sylweddol sy'n effeithio ar unigolion. Mae trefniadau effeithiol ar waith i hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru a'r awdurdod diogelu lleol os bydd unrhyw bryderon yn codi, gan sicrhau y gwneir hynny mewn modd agored a gonest.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**Dyddiad Cyhoeddi** 22/12/2022